Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod Mis Medi 2017 o'r Cyngor Llawn

Full Council Meeting for month of September 2017

Rhoddir rhybydd y cynhelir Cyfarfod Misol nesaf o'r Cyngor ar **Nos Iau, 21 Medi 2017 yn Neuadd Pentref Carmel i gychwyn 7.30 yr hwyr** ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.

Notice is herby given that the next Monthly of the Council will be held on **Thursday, 21 September 2017 at Carmel Village Hall to commence 7:30 pm** and you are summoned to appear

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be availabe to view twenty minutes before the stating time

Amgaeaf y canlynol i chwi
The following is enclosed -

1) Rhaglen Cyfarfod 21 Medi 2017- Agenda for the Council Meeting 21 September 2017
2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 20 Gorffennaf 2017 – Draft Minutes of the Council Meeting 20 July 2017.

Cyfarfod	**Cyfarfod o'r Cyngor Llawn – Full Council Meeting**
Dyddiad	**Nos Iau / Thursday 21 Medi / 21 September 2017**
Amser	**7.30 yr hwyr / pm**
Lleoliad	**Neuadd Pentref Carmel Village Hall**

Rhaglen

(noder y bydd Mr Huw Roberts yn bresennol i gyfieuthu'r trafodaethau / note that Mr Huw Roberts will be in attendence to translate proceedings)

1 **Croeso'r Cadeirydd /** ***Chairman's Welcome***

2 **Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau /** ***Apologies from Members***

3 **Datgan Buddiant Personol Neu Buddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen /** ***To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.***

4 **Cyfarfodydd Misol y Cyngor – trafod nosweithiau y cyfarfodydd /** ***The Councils Monthly Meetings – to decide which evenings to hold the monthly meetings***

5 **Croeso PCSO Julie Holland o Heddlu Gogledd Cymru i drafod unrhyw faterion sydd yn codi pryder i aelodau / Welcome PCSO Julie Holland from North Wsales Police to discuss any matters that members has concerns**

- **Gor yrru Carmel / Speeding Cars, Carmel**
- **Ymddygiad gwrth gymdeithasol ardal Penbonc Y Groeslon / Unsocial conduct Penbonc area, Groeslon**

6 **Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Mis Mehefin fel Rhai Cywir (20 Gorffennaf 2017) –** ***To Accept the Minutes of the July Meeting (20 July2017)***

7 **Materion yn Codi o'r Cofnodion –** ***Maters Arising from the Minutes***

a) **Japanese Knotweed**
Diweddariad ar y noson – update on the evening

b) **Sedd Gwag Ward LLandwrog / Dinas Dinlle / Vacant Seat**

c) **Bethesda Bach – 30milltir yr awr**
Derbyniwyd yr ohebiaeth isod gan Cyng. Eric Jones

Ers tros ddau fis bellach rwyf mewn trafodaeth a Cyngor Gwynedd i geisio gostwng y cyflymdra teithio ym Methesda Bach ac wedi trosglwyddo deiseb gan drigolion yr ardal. Mae'r Cyngor at hyn o bryd mewn cysylltiad a Heddlu Gogledd Cymru ac yn disgwyl canlyniad archwiliad cyflymdra sydd yn cael eu cario allan dros gyfnod o

amser. Carwn ychwanegu hefyd fod llu o gwynion wedi dod i law am gerbydau yn parcio yn ddyddiol at y groesffordd gan greu problemau i drafnidiaeth sy'n mynd a dod i Ty,n Lon. Rwyf nawr wedi cael sicrwydd y bydd llinellau melyn yn cael eu rhoi iawr ond fod angen gwneud archeb yng nghyntaf gyda phenderfyniad o faint a hyd y llinellauDiweddariad ar y noson – update on the evening

ch) **Meddygfa "Kendall" Surgery, Rhostryfan**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol gan Gwenllian AC (I Bethan Jones o'r Awdurdod Iechyd

Diolch am eich llythyr ynglyn a'r posibilrwydd o gau y feddygfa gangen yn Rhostryfan.
Rwyf wedi trafod y mater gyda rhai o drigolion yr ardal ac maent yn bryderus iawn y bydd y gwasanaeth lleol hwn yn cael ei golli.
Deallaf nad oes anhawsterau i gael apwyntiadau yn Rhostryfan ar hyn o bryd, er mai dau brynhawn yn unig mae'r feddygfa ar agor. Deallaf hefyd bod nifer o gleifion yn methu cael apwyntiad o fewn diwrnod neu ddau yng Nghaernarfon oherwydd y galw uchel am apwyntiadau, ac os bydd meddygfa Rhostryfan yn cau yna onid oes peryg i'r sefyllfa yma waethygu?
Mae'r feddygfa yn hwylus iawn, yn enwedig i drigolion sydd ddim yn gyrru ac yn gorfod dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus sydd ddim bob amser yn ddibynadwy. Mae'r feddygfa yn hwylus hefyd i'r rhai sydd a cherbydau, gan fod digon o lefydd parcio wrth ymyl, yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghaernarfon.
Rydych yn nodi yn eich llythyr y byddai ail leoli y gwasanaeth i'r brif feddygfa yn caniatau darparu gwasanaeth o safon uwch. Byddwn yn ddiolchgar i gael gwybod sut y byddwch yn darparu gwasanaeth o safon uwch yng Nghaernarfon.
Hoffwn wybod hefyd am fanylion y broses o ymghynghori gyda chleifion a chynrychiolwyr y gymuned.

d) **Palmant Dolydd *Pavement***
Diweddariad ar y noson

8 Agor Tendrau Atgyweirio Lloches Bws Cae'r Moel, Carmel – *Open tenders treceived for the renovation work of the bus shelter by Cae'r Moel, Carmel*

9 Dinas Dinlle – Cyfarfod a gynhaliwyd 14eg o Fedi – *Meeting held on 14th of September*

10 Materion yn codi gan Aelodau *Matters raised by Members*

Cyng Eddie Willcox

1) **Llochesi Bws** **Bus Shelters.**
2) **Caeau Chwarae Carmel a Fron** **Carmel & Fron Playing Fields.**

11 Cyfrifon Terfynol 2016-17 – Adroddiad yr Archwilwyr – *2016-17 Accounts - The Auditors Report*

Ystyried yr adroddiad a gweithredu fel bo'r angenn / To consider the Auditors Report and act accordingly

Bydd rhaid i'r Swyddog Ariannol a'r Cadeirydd arwyddo tudalen 4 wedi I'r Swyddog Ariannol wneud y newidiadau ac wedi I'r Cyngor ail- fabwysiadu'r cyfrifon / The RFO and Chairman has to sign page 4 of the statement once the Council re-approves the accounts

12 Grwp Cyswllt Alexandra

Cynhelir y cyfarfod nesaf 'r Grwp ar Nos Iau 12fed Hydref 2017 yn Inigo Jones am 3.00 o'r gloch/ The next meeting will be held on Thursday, October 12th 2017 at 3pm

Rhaid cyflwyno unrhyw cwestiynnau wythnos cyn y cyfarfod / Any questions has to be submitted one week before the date of the meeting

Gohebiaeth - *Communication*

13 Cyngor Gwynedd – Toiled y Marine – Marine Public Toilet

Derbyniwyd llythyr gan CG yn datgan y canlynol -

"Camau nesaf ..Bydd y cynnlun Partneriaethu yn parhau ar gyfer 2018-19 yn golygu y bydd y swm y cyfraniadau yn aros yr un faint ag eleni (sef £4,000). Bydd yr Adran yn cychwyn ar gynnal trafodaethau gyda'r cymunedau hynny sydd wedi datgan diddordeb mewn cymryd mwy o gyfrifoldeb am y ddarpariaerhau ac er mwyn eu cynnal i'r dyfodol"

14 Cyngor Gwynedd a Mon – Cynllun Datblygu Lleol – Joint Local Development Plan

Cadarnhad fod CG a Mon wedi mabysiadu'r Cynllunar 31 Gorffennaf 2017 ar gyfer 2011-2026
Confirmation that the Scheme was adopted on 31st July for 2011-2026 b

15 Llywodraeth Cymru – Wales Government

CLYSTYRU: ARIANNU I GYFLWYNO TREFNIADAU CYFLEUSTEROL AR Y CYD.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y manteision posibl, a diddordeb presennol y sector, yn archwilio clystyru. Mae'r manteision posibl a nodwyd gan y sector yn cynnwys gallu mynd i'r afael â materion ar draws y maes, cydweithio ar feysydd penodol, a chyflawni arbedion maint. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ymrwymiad drwy'r "agenda ar gyfer gweithredu" a gyhoeddwyd yng nghynhadledd Un Llais Cymru ym mis Hydref 2016 i hwyluso creu clystyrau, lle roedd diddordeb yn y sector i wneud hynny, gan wneud rhywfaint o arian ar gael *i gefnogi sefydlu trefniadau ar y cyd yn y lle cyntaf.*

Dyddiad cau - Dydd Gwener 13 Hydref 2017

CLUSTERING: FUNDING TO SUPPORT THE INITIAL SETTING UP OF JOINT ARRANGEMENTS.

The Welsh Government recognises the potential benefits of the sector's existing interest in exploring clustering. The potential benefits identified by the sector include being able to address area wide issues, collaboration on specific areas, and achieve economies of scale. The Cabinet Secretary for Finance and Local Government made a commitment through the "agenda for action" announced at the One Voice Wales conference in October 2016 to facilitate the creation of clusters, where there was sector interest to do so, making some modest funding available *to support the initial setting up of joint arrangements*.

Closing date – Friday, October 13, 2017

16 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

Ceisiadau Medi 2017 - Applications for September 2017

C17/0663/17/LL

Y Dalar, LLandwrog LL54 5SY

Codi estyniad deulawr i ocher yr eiddo presennol ynghyd a ffenestri to newydd a tynnu simdde bresennol
Erection of two storey side extension, provision of new roof windows and removal of existing chimney.

C17/0705/17/LL

Beach Cottage, Dinas Dinlle, LL54 5TW

Cais ar gyfer codi estyniadau blaen a chefn a gosod cladin
Application for the erection of front and rear extensions and the provision of cladding

C17/0820/17/LL

Tir yn Iard Glo, Llifon, Y Groeslon, LL54 7DE

Cais i gadw llinell trydan
Application to retain electricity line

C17/0811/17/LL

Maes Hyfryd, Carmel. LL54 7RS

Codi ty deulawr gromen a modurdy
Erect two storey dormer dwelling and garage

Materion Ariannol / Financial Matters

17 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn 1 Awst 2017 hyd at 31 Medi 2017 – Income Received

1 August 2017 to 30 September 2017

Manylion / Details	Cyfanswm
Dim incwm wedi ei dderbyn yn y cyfnod- no income received this period	

18 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved

Manylion / Details	Swm heb TAW Amount	Cyfanswm y Taliad- Total Payment	Rhif Siec/ Cheque Number

	excluding VAT		
Cyflog y Clerc - Awst 2017 – Clerks Salary August 2017	£425.39	£425.39	Uniongyrchol/Direct
HMRC - Treth Incwm Awst 2017 – Income Tax August 2017	£112.40	£112.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc – Awst 2017 – Clerks Allowance August 2017	£24.00	£24.00	Uniongyrchol/Direct
Cyflog y Clerc - Medi 2017 – Clerks Salary September 2017	£425.39	£425.39	Uniongyrchol/Direct
HMRC - Treth Incwm Medi 2017 – Income Tax Sept 2017	£112.40	£112.40	Uniongyrchol/Direct
Lwfans Clerc – Medi 2017 – Clerks Allowance Sept 2017	£24.00	£24.00	101749
Huw Roberts – Cyfiethu Mis Gorffennaf Translation	£54.00	£54.00	101750
Cyngor Gwynedd – Ffi Etholiad 2017 – Election Fees	£470.00	£470.00	101751
Cwmni Gwalch – Torri Gwair Caeau Peldroed – Grass Cutting Playing Fields Fron a Carmel	£620.00	£620.00	101752
Un Llais Cymru – Ffioedd Hyfforddiant – Training Fees	£80.00	£80.00	101753
C L Jones – Goliau Cae Peldroed Carmel – Goal posts	£1,214.24	£1,457.09	101754
Zurich – Yswiriant Blynyddol – Annual Insurance ti 20/9/2018	£1,094.65	£1,094.65	101755

19 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings*

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn - ? / Full Council – ?
Cyfarfod Ymgysylltu Gyda'r Cyhoedd / - w/c Hydref 2ail - Engage With The Public Panel w/c 1st October
Pwyllgorau – i'w gadarnhau / Committess to be confirmed

20 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (Hydref 2017) *Matters to be raised by members for the next meeting in October 2017*

Diwedd - end